

Wylfa Newydd
Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 23: Casgliad

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Tudalen wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

1.0 Casgliad

- 1.1 Mae penodau blaenorol yr Adroddiad ar yr Effaith Lleol wedi mabwysiadu dull cyffredin o osod amodau sylfaenol, rhagfynegi effeithiau, canllawiau polisi er mwyn asesu pwysigrwydd yr effeithiau, arwyddocâd yr ardaloedd lle mae data ar goll. Yn erbyn yr holl ystyriaethau hynny, mae asesiad o effeithiau tebygol felly ynghlwm ag argymell y camau sydd eu hangen i ymateb i'r effeithiau hynny drwy ddrafftio gofynion a darparu lliniariad, sydd fwyaf tebygol yng Nghytundeb a.106.
- 1.2 Yn yr adran hon, rhoddir trosolwg o'r gofynion lliniaru ym mhenodau blaenorol adroddiad ar yr effaith lleol. Y nod yw rhoi dealltwriaeth fras o amrediad, math a dyfnder y camau gweithredu sydd eu hangen i ymateb i'r pwysau niweidiol a fydd yn cael eu cynhyrchu gan y datblygiad mawr hwn.
- 1.3 Mae hierarchaeth yr ymateb i effeithiau o "osgoi, lleihau, lliniaru, digolledu" yn cael ei gyflawni drwy addasiadau i'r cynllun yn ystod y broses gadarnhau, gosod gofynion a darpariaethau gwarchodol yn y GCD a thrwy rwymedigaethau cynllunio. Mae'r crynodeb canlynol yn canolbwyntio yn unig ar yr olaf o'r meysydd hyn, lliniariadau a chamau digolledu sy'n cael eu cyflawni drwy rwymedigaethau cynllunio. Tra bod rhwymedigaethau cynllunio yn canolbwyntio ar liniariadau a digolledu, mae'n bosibl hefyd y bydd y camau hyn yn effeithiol i osgoi neu leihau'r effeithiau niweidiol y maen nhw yn bwriadu ymdrin â nhw.
- 1.4 Mae'r camau lliniaru sy'n cael eu crynhoi yma wedi cael eu nodi o'r wybodaeth sydd ar gael i'r Cyngor. Nodwyd bylchau sylweddol yn y wybodaeth honno gan y Cyngor ac mae'n debygol fel y bydd y bylchau hyn yn cael eu llenwi, yn ystod y broses archwilio ac ar ôl hynny, y bydd newidiadau yn yr effeithiau a ragwelir a'r lliniariad a fydd ei angen. Gall yr holl wybodaeth sydd ar goll fod yn bwysig, ond mae pwysigrwydd arbennig yn y wybodaeth sy'n caniatáu effeithiau ar gymunedau lleol yng Ngogledd Môn i wybod gyda hyder yr amgylchiadau y byddan nhw'n ei wynebu, a chael hyder y bydd mesurau mewn lle, er mwyn osgoi neu wella'r elfennau niweidiol yr effeithiau hynny.
- 1.5. Mae penodau yr AELI yn nodi amrediad eang o liniariadau sy'n cynnwys:-
 - a) Camau gweithredu penodol sydd eisoes yn wybyddus ac y bydd eu hangen
 - b) Amcanion a nodwyd i'w cyflawni
 - c) Effeithiau niweidiol posibl lle mae'r digwyddiad yn ansicr
 - d) Effeithiau niweidiol gwybyddus lle mae maint yr effaith heb ei fesur ar yr adeg yma; ac
 - e) Effeithiau niweidiol lle nad yw lliniariad uniongyrchol yn bosibl, ond gall mesurau digolledu fod yn briodol
- 1.6 Mae'r amrediad eang hwn o sefyllfaoedd yn cael ei gynnwys gan gyfuniad o gronfeydd penodol, cronfeydd wrth gefn a chronfa gymunedol. Mae

hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r cronfeydd hyn i gwrdd â'r amrediad eang hwn o effeithiau yn hanfodol. Bydd yn cynrychioli methiant sylfaenol o'r broses asesu a chymeradwyo os yw effeithiau'r datblygiad yn cael eu dangos fel eu bod yn bodoli yn y dyfodol, ond bod lliniariad sydd ar gael yn annigonol i ymdrin â'r effeithiau hynny, os ar yr un pryd, nad yw cronfeydd a neilltuwyd mewn mannau eraill heb eu defnyddio sydd ag effeithiau a ragwelir nad ydyn nhw wedi cael eu dangos eu bod wedi digwydd.

- 1.7 Bydd CSYM yn cynhyrchu map llwybr lliniaru cymharol er mwyn ymateb i'r hyn a baratowyd gan HNP. **Nid yw'r crynodeb canlynol yn ceisio bod yn unrhyw fath o restr gynhwysfawr o'r amrediad llawn o liniariadau sydd eu hangen.**
- 1.8 Mae'n rhaid i'r holl benawdau lliniaru canlynol fod yn amodol ar fonitro trylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r angen ar gyfer gweithredu a'i effeithiolrwydd. Bydd swm sylweddol o'r cronfeydd lliniaru yn anochel yn cael eu cyfeirio at asesu maint yr angen am liniaru a chanlyniadau'r lliniaru hwnnw ar sail gylchol.
- 1.9 Mae'r rhestr ganlynol yn cael ei threfnu yn thematig, ond gwnaed asesiad manwl hefyd o'r effeithiau tebygol mewn lleoliadau safleoedd penodol, e.e. Dalar Hir a Pharc Cybi. Yn gyffredinol, mae'r effeithiau a nodwyd ar gyfer y safleoedd hyn, tra eu bod yn enghreifftiau penodol o effeithiau ehangach a fydd yn cael eu teimlo drwy'r ynys, yn canolbwyntio yn arbennig ar effeithiau ffisegol. Fodd bynnag, rhoddir darlun yn ogystal o natur y lliniaru sydd ei angen o bersbectif safle penodol.
- 1.10 Bydd gan y meysydd thematig canlynol o liniariadau a argymhellwyd, ar gyfer yr hyn y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu drwy rwymedigaeth gynllunio, yr enghreifftiau diffiniol allweddol hyn (nad yw'n gyflawn) a dynnwyd o'r AELI blaenorol:-

DATBLYGU ECONOMAIDD - CYFLOGAETH LEOL A'R GADWYN

GYFLENWI

- a) Gwrthsefyll dadleoli'r gweithlu, yn arbennig felly yn y sectorau gofal, lletygarwch a thwristiaeth
- b) Cymorth i'r sector BBaCh i gynnig am gontractau WN
- c) Cynyddu hyfforddiant lleol mewn sgiliau er mwyn manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol yn ystod y gwaith adeiladu a phan mae WN yn gweithredu a phan mae ar gau.

TWRISTIAETH

- a) Gwarchod y gweithlu a'r llety sydd ar gael ac sydd ei angen er mwyn cefnogi'r economi dwristiaeth leol.
- b) Cynyddu marchnata a chyfleusterau gwell ar gyfer ymwelwyr er mwyn ymateb i bwysau adeiladu a'r canfyddiad o effeithiau niweidiol o adeiladu a gweithredu WN am gyfnod hir.

GWARCHOD

- a) Gwarchod cymunedau lleol a grwpiau bregus yn weithredol, drwy ymateb i heriau gan amgylchedd cymdeithasol sydd wedi newid.

ADDYSG A SGILIAU

- a) Darparu addysg ar bob lefel oed er mwyn cefnogi mwy o gyfranogiad llafur lleol ym mhrosiect WN
- b) Cefnogi ysgolion ac athrawon i ymateb i alwadau i dderbyn dibynyddion gweithwyr mudol tra'n cynnal y safonau presennol
- c) Sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion arbennig

TAI

- a) Gwarchod y sector rhent preifat ar gyfer y boblogaeth leol a thwristiaeth
- b) Annog adeiladu tai newydd a dychwelyd i ddefnyddio eiddo gwag ac eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn
- c) Rheoli'r defnydd o garafannau ar gyfer dibenion adeiladu

YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

- a) Darparu adnoddau (gan gynnwys y gallu i drochi) yn enwedig ar gyfer addysg a chyfleusterau cymunedol lleol er mwyn ymateb i bwysau gan fewnlifiad net o weithwyr a dibynyddion dros dro a pharhaol
- b) Cefnogaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg wrth adeiladu a gweithredu gweithle WN drwy recriwtio, gweithrediadau o ddydd i ddydd a'r defnydd o gontractwyr.
- c) Cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a darparu arwyddion

TRAFNIDIAETH A CHLUDIANT

- a) Darparu mwy o wasanaethau bws a pharcio a rhannu
- b) Gwell monitro er mwyn gorfodi cynlluniau teithio WN (e.e. mewn perthynas â pharcio anghyfreithlon a gyrru drwy strydoedd preswyl i osgoi ardaloedd lle ceir trafnidiaeth drwm)
- c) Cyllid ychwanegol ar gyfer atgyweirio ffyrdd

RHEOLI GWASTRAFF, SŴN A DIRGRYNIAD, ANSAWDD AER A GOLAU

- a) Strategaeth fonitro a lliniaru ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff
- b) Strategaethau monitro ac ymateb i effeithiau ar amwynderau gan sŵn, dirgryniad, llwch a golau.
- c) Nodi a gwarchod sensitifrwyddau penodol mewn cyd-destunau preswyl, addysg ac adloniadol (fel ysgolion, cyfleusterau cymunedol a statws awyr dywyll).

CYMUNED

- a) Darparu Hamdden – (sy'n gysylltiedig yn arbennig â'r prif gampws) darparu gwell cyfleusterau hamdden a gwella'r cyfleusterau presennol ar gyfer adloniant a nofio y tu mewn ac oddi allan.

- b) Sicrhau cyfleusterau meddygol a chymorth cymdeithasol ar gyfer cymunedau lleol a'r gweithlu sy'n dod i mewn.
- c) Gwell gwasanaethau golau glas er mwyn ymateb i ofynion y gweithlu adeiladu.

EFFEITHIAU CRONNOL

- a) Mae effeithiau cronol rhwng prosiect WN ac amrediad o Brosiectau isadeiledd mawr sy'n "Rhesymol Ragweladwy yn y Dyfodol" wedi cael eu hystyried, er bod angen rhagweld lliniariad ffisegol a mesurau digolledu yn golygu asesu sut y gall lliniaru ymateb i gyfuniadau cymhleth iawn, ac yn y pen draw, cyfuniadau na ellir eu rhagweld ac amseriadau datblygiadau yn y dyfodol. Dylid edrych ar yr holl feysydd o liniariad thematig a phenodol i safle o'r persbectif cronol hwn, gan dalu sylw arbennig i'r tebygolrwydd o ddwysâd effeithiau a nodwyd mewn manau eraill a'r angen cynyddol ar gyfer cronfeydd wrth gefn a chronfeydd cymunedol i gael eu defnyddio yn hyblyg, mewn cwrdd ag arian sydd ar gael er mwyn cwrdd ag anghenion penodol fel ei gilydd.

- 1.11 Mae gan y lliniariadau a argymhellir ar gyfer y safleoedd penodol canlynol, ar gyfer yr hyn y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu drwy'r rhwymedigaeth gynllunio, yr enghreifftiau diffiniol allweddol hyn (nad yw'n gyflawn) a dynnwyd o'r AELI blaenorol:-

ARDAL DATBLYGU WYLFA NEWYDD

- a) Cyfyngu neu wrthbwysu tirwedd ac effeithiau gweledol i ddefnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chymunedau lleol
- b) Gwarchod a rheoli nodweddion tirwedd pwysig, gan gynnwys ardaloedd o sensitifrwydd arbennig fel hawliau tramwy cyhoeddus, cymunedau ac AHNE.
- c) Mesurau digolledu i wrthbwysu effeithiau na ellir mo'u hosgoi.
- d) Rhywogaethau a chynefinoedd (gwarchodedig ac anwarchodedig) sydd wedi cael eu gwarchod a'u gwella (yn cynnwys mesurau osgoi a digolledu).
- e) Gwarchod a rheoli nodweddion hanesyddol yn barhaus, gan gynnwys olion archeolegol, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi cofrestredig.
- f) Gwarchod rheoli Dŵr Wyneb, Dŵr Daear, Dŵr ar gyfer Ymdrochi ynghyd â phroblemau gyda thir llygredig sydd eisoes yn bodoli

CAMPWS SAFLE WYLFA NEWYDD

- a) Darparu cyfleusterau hamdden ac amwynderau priodol.

PARCIO A THEITHIO DALAR HIR

- a) Gwarchod derbynyddion ecolegol ac atal fermin.
- b) Rheoli llifogydd a phryderon ehangach gyda draenio
- c) Sicrhau bod amodau trafniadaeth lleol (yn cynnwys y gyffordd gyda'r A55) yn parhau i weithredu yn foddhaol.

CANOLFAN LOGISTEG PARC CYBI

- a) Gwarchod nodweddion y dirwedd bresennol a'r un a ddaw yn ei lle.
- b) Rheoli ecolegol er mwyn gwarchod a chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau bywyd gwyllt a rheoli planhigion goresgynol
- c) Cynlluniau gwella hawliau tramwy

CYFLEUSTERAU GORSAF BŴER ODDI AR Y SAFLE

- a) Sicrhau bod gwaith plannu yn cael ei wneud oddi ar y safle er mwyn ei guddio, a chyflawni mesurau digolledu er mwyn gwella ansawdd a defnyddioldeb rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n amgylchynu'r safleoedd
- b) Rheoli rhywogaethau goresgynol a rheoli draenio

GWELLIANNAU NAD YDYN NHW AR Y FFORDD A5025 BRESENNOL

- a) Arolygu ac adfer nodweddion tirwedd traddodiadol a gwella Hawliau Tramwy.
- b) Adfer a gwella cynefinoedd rhywogaethau pwysig a chysylltedd rhwng cynefinoedd.

- 1.12 Yn nhermau defnyddio'r camau lliniaru AELI hyn i gyd, bydd y cam pwysig penodol sydd ar ddod yn drawsnewid effeithiol o'r hyn sydd yn cael ei amlinellu yn yr AELI ar ffurf a ellir cael ei gynnwys yn briodol un ai yng ngofyniad y GCD neu'r rhwymedigaeth cynllunio a.106.
- 1.13 Nid yw'r drafftio penodol hwnnw wedi cael ei geisio yn y AELI, yn anad dim oherwydd ei fod wedi cael ei dderbyn y bydd yr archwiliad sy'n mynd ymlaen yn edrych unwaith eto ar gasgliadau AELI cyn ceisio cael cyfraniad gan y partïon, cyfraniad CSYM yn enwedig wrth ddrafftio'r gofynion priodol a'r rhwymedigaethau cynllunio.
- 1.14 Mae digonoldeb unrhyw gyfamodau rhwymedigaethau cynllunio a.106 o'r pwysigrwydd mwyaf yn y broses archwilio oherwydd eu bod yn cynrychioli'r camau gweithredu sydd eu hangen i ymdrin ag effeithiau'r cynnig ac er mwyn eu rheoli nhw mewn ffordd sy'n galluogi'r gorchymyn caniatâd datblygu i gael ei gymeradwyo.
- 1.15 Mae CSYM yn parhau yn gyson gadarn yn ei farn ei fod yn cefnogi datblygu cyfleuster Wylfa Newydd cyn belled â bod y camau sydd eu hangen i warchod y cymunedau lleol yn enwedig, ond pob rhanddeiliad a effeithir, cyn belled â bod y cydbwysedd o effeithiau cadarnhaol a niweidiol yn dangos eu bod o blaid buddion etifeddol, hirdymor, go iawn, cyffredinol i bobl Ynys Môn a Gogledd Cymru. Mae'n rhaid sicrhau hyn er mwyn goresgyn yr effeithiau niweidiol anochel ac arwyddocaol a ddaw yn anorfod gyda datblygiad o'r maint hwn.